**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddTai@senedd.cymru

Annwyl Gadeirydd,

**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**

Diolch yn fawr am y cyfle i gyfrannu at ymgynghoriad y Pwyllgor ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.

Ym mis Mawrth 2026 cyhoeddais fy Adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg sy'n dangos yn glir na ellir sicrhau twf cynaliadwy yn nifer y siaradwyr Cymraeg nac ehangu defnydd o'r iaith drwy bolisïau addysg yn unig. Mae sefyllfa'r Gymraeg yn dibynnu hefyd ar natur a hyfywedd y cymunedau y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn magu teuluoedd ynddynt. Mae'r meysydd sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, er enghraifft, tai, cynllunio, a llywodraeth leol felly, yn gwbl greiddiol i ddyfodol yr iaith. Mae adroddiadau diweddar y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (y Comisiwn) yn ategu hyn ac yn gwneud nifer o argymhellion ynghylch sut gellid cefnogi'r Gymraeg drwy ddiwygio polisïau ym maes tai, cynllunio a llywodraeth leol.

Yn ddiweddar cyflwynais ddogfen gyngor i Weinidogion Cymru sy'n amlinellu'r camau y gellid eu cymryd er mwyn cryfhau prosesau cynllunio ieithyddol cymunedol yng Nghymru. Mae'r ddogfen gyngor hwn yn adeiladu ar nifer o gasgliadau ac argymhellion ein adroddiad 5 mlynedd ac adroddiadau'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Rwy'n atodi'r cyngor hwnnw i'r llythyr hwn. Mae'r cyngor yn dadlau y dylid diwygio'r safonau hybu er mwyn creu fframwaith statudol cryfach a mwy effeithiol ar gyfer cydlynu cynllunio ieithyddol cymunedol ar draws Cymru. Byddai hyn yn gam allweddol tuag at sicrhau bod strategaethau hybu awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol yn gerbydau pwerus ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol dwys ar lefel leol, ac yn canolbwyntio ar greu a chynnal gofodau amrywiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.

Ar sail canfyddiadau fy adroddiad 5 mlynedd, adroddiadau'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg, a'r ddogfen gyngor rwyf wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru, rwyf yn argymell bod y Pwyllgor yn rhoi blaenoriaeth i'r tri maes canlynol:

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## 1. Cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith a gweithredu prif argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Un o brif argymhellion y Comisiwn yw dylai Llywodraeth Cymru sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Yn ôl y Comisiwn byddai sefydlu ardaloedd o'r fath yn hwyluso addasu polisïau cyhoeddus i ymateb i amgylchiadau ieithyddol lleol. Dylai'r pwyllgor graffu ar sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r argymhelliad arwyddocaol hwn ac yn sicrhau bod polisïau lleol yn cynnal a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Dylai hyn gynnwys:

- Ymrwymiad y Llywodraeth i ddeddfu i gael mesurau diogelu newydd i ardaloedd o ddwysedd ieithyddol uwch ac i weithio gydag awdurdodau lleol i benderfynu sut a ble y dylid dynodi'r ardaloedd hyn.
- Sut mae awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi i ddatblygu polisïau sy'n cryfhau defnydd cymunedol o'r Gymraeg a'r berthynas rhwng polisïau lleol a nodau strategaeth Cymraeg 2050.

## 2. Cynllunio gwlad a thref a thai

Fel mae ein hadroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg ac adroddiadau'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn ei ddadlau, mae cynllunio defnydd tir, datblygu tai ac ymyraethau yn y farchnad dai yn ffactorau allweddol wrth gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith. Dylai'r pwyllgor graffu ar ba mor effeithiol yw polisïau cynllunio a thai wrth gefnogi nodau Cymraeg 2050 a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg ledled Cymru. Gallai hyn gynnwys.

- Sut mae'r Llywodraeth yn gweithredu argymhellion adroddiadau'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg mewn perthynas â chynllunio gwlad a thref a thai.
- Sut bydd ymrwymiad y Llywodraeth i ddeddfu ar gyfer hawl i gartref digonol yng Nghymru yn cyfrannu at hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith ac yn galluogi siaradwyr Cymraeg ifanc aros yn eu cymunedau.
- Craffu ar effeithiolrwydd ymyraethau presennol mewn perthynas ag ail gartrefi a llety gwyliau, gan gynnwys Peilot Dwyfor, premiymau'r Dreth Gyngor, a chyfarwyddyd Erthygl 4.
- Sut bydd ymrwymiad y Llywodraeth i ddarparu mwy o dai cymdeithasol yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.
- Sut mae polisïau a phrosesau cynllunio yn sicrhau ystyriaeth briodol i'r Gymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun cynlluniau datblygu lleol.

## 3. Llywodraeth leol a chynllunio ieithyddol cymunedol

Fel mae ein dogfen gyngor i Weinidogion Cymru yn nodi, mae awdurdodau lleol yn bartneriaid allweddol wrth wireddu uchelgeisiau strategaeth Cymraeg 2050 ac wrth gynyddu defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Dylai'r Pwyllgor graffu ar sut mae awdurdodau

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner


lleol a phartneriaid allweddol eraill yn arwain ymdrechion cynllunio ieithyddol cymunedol ac yn cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Fe all hyn gynnwys:

- Rôl y safonau hybu a strategaethau hybu'r Gymraeg awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol fel fframwaith cynllunio ieithyddol lleol.
- Cyfleoedd i gryfhau arweinyddiaeth a chydlynu strategol ar lefel lleol a rhanbarthol.
- Sut mae awdurdodau lleol yn cydweithio â mentrau iaith, yr Urdd, grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill er mwyn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
- Y capasiti a'r adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol ac i bartneriaid eraill ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Sut mae'r Llywodraeth yn gweithredu rhai o argymhellion adroddiad 'Cymraeg i bawb' Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau a gafodd ei gyhoeddi tua diwedd y chweched Senedd.

Mae nifer o'r materion sy'n cael eu trafod uchod yn debygol o fod o ddiddordeb i bwyllgorau eraill y Senedd, yn enwedig y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chwaraeon. Byddem felly yn eich annog i fanteisio ar gyfleoedd i gydweithio â phwyllgorau perthnasol eraill y Senedd wrth ystyried effaith penderfyniadau llywodraeth leol, tai a chynllunio ar y Gymraeg a'i chymunedau.

Gobeithiaf fod y sylwadau uchod o ddefnydd wrth i chi gynllunio gwaith y Pwyllgor i'r dyfodol. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn y gwaith hwnnw a byddwn yn falch o gyfrannu ato.

Yn gywir,



**Efa Gruffudd Jones**

Comisiynydd y Gymraeg